

# Cymraeg Proffesiynol

## Uned 1 Orgraff – Confensiynau Sillafu

### Adran Gramadeg

### Yr Wyddor Gymraeg

Mae yna 29 llythyren yn yr wyddor Gymraeg:

**a, b, c, ch, d, dd, e, f, ff, g, ng, h, i, j, l, ll, m, n, o, p, ph, r, rh, s, t, th, u, w, y**

#### Ynganu'r Wyddor Gymraeg

A	(a)	B	(bi)	C	(èc)	CH	(èch)
D	(di)	DD	(èdd)	E	(e)	F	(èf)
FF	(èff)	G	(èg)	NG	(èng)	H	(aitsh)
I	(i-dot)	J	(je)	L	(èl)	LL	(èll)
M	(èm)	N	(èn)	O	(o)	P	(pi)
PH	(ffi)	R	(èr)	RH	(rhi)	S	(ès)
T	(ti)	TH	(èth)	U	(i-bedol)	W	(w)
Y	(fel 'her' Saesneg heb yr h na'r r)						

### Acenion

Mae yna bedair acen yn Gymraeg sy'n dylanwadu ar ansawdd y llafariad sy'n eu dwyn:

- Yr acen **ddyrchafedig** (´) sy'n digwydd uwchben 'a'
- Yr acen **ddisgynedig** (˘), sy'n digwydd uwchben 'i' ac 'o'
- Gall yr **acen grom** (^) ddigwydd uwchben unrhyw lafariad, i ddangos ei bod hi'n hir.
- Y **didolnod** (ˆ) a ddefnyddir i ddangos bod llafariad yn cael ei hynganu ar wahân, yn hytrach na ffurfio deusain â'r llafariad ddrws nesaf iddi; nid yw ansawdd y llafariad ei hunan yn newid. Mae'r didolnod yn cael ei ddefnyddio yn enwedig ag 'i', e.e. **sïon** /ˈsi·on/; **storïau** /stɔr'iaɪ/.

### Llafariaid

Sain leisiol yw llafariad sy'n cael ei chynhyrchu heb gyfyngu ar lif y llafar, sef 'a', 'e', 'i', 'o', 'u', 'w', 'y'. Mae ansawdd llafariad yn dibynnu ar safle'r tafod yn y geg ynghyd â safle'r gwefusau.

Gall llafariad Gymraeg fod yn hir neu'n fyr. Mae'r llafariad yn hir mewn geiriau unsill sy'n gorffen â:

*b, ch, d, dd, g, f, ff, s, th*

Ac, felly, does dim eisiau rhoi acen grom arni:

*pob, coch, rhad, gradd, cig, twf, saff, cas, peth*

Mae'r hyd hefyd yn amrywio o flaen 'l', 'n' neu 'r'. Mae angen acen grom uwchben 'a', 'e', 'o' ac 'w' pan fyddant yn hir mewn gair unsill sy'n gorffen ag 'l', 'n' neu 'r', e.e.

*cân, côr, gên, môr, pâr, stên, stôl, sŵn, tôn, tŵr*

Mae 'i' ac 'u', fel arfer, yn hir o flaen y cytseiniaid hyn, ac felly, does dim angen acen grom i ddynodi hynny:

*ffin, hir, hil, llun, sgil, sur*

**Eithriadau:** *bil, pin, prin, swil*

Yn achos y gair benthg **sgil** defnyddir yr acen ddisgynedig (') i ddangos fod y llafariad yn fyr. Cymharer: **clos** a **clòs**.

Os bydd dwy gytsain yn dilyn y llafariad mewn gair unsill, bydd y llafariad yn fyr, e.e. enghraifft:

*brwnt, corff, pert, punt*

Os daw llafariad ar ddiwedd gair unsill, bydd y llafariad bob amser yn hir, e.e.

*da, lle, llu, llw, si, to*

Ac, felly, nid oes acen grom ar eiriau fel y rhain.

**Eithriad:** *tŷ*

Mae'r llythyren 'y' yn gallu dynodi dwy sain:

(i) Y sain flaen gaeedig /i/ yn ne Cymru (y sain ganolig gaeedig /i/ yng ngogledd Cymru); yr un sain ag 'u':

*cryf, dyn*

(ii) Y sain ganolig /ə/, sy'n digwydd yn aml iawn mewn geiriau lluosill, ac eithrio yn y sillaf olaf:

*cynnig, prynu, glynu, mynyddoedd*

Y sain ganolig hefyd sydd mewn geiriau diacen fel:

*dy, fy, y, yr, yn (ym, yng)*

ac mewn rhai geiriau benthg unsill fel **ffrynt** a **syr**.

Dyma sut y mae'r llafariad Cymraeg yn ymddangos (rhoir y symbol seinogol sy'n cyfateb iddynt rhwng dwy linell ar oledd):

a (byr)	tan	/a/
á	jiráff	/a/
a (hir)	tad	/ɑ/
â	tân	/ɑ/
e (byr)	pen	/ɛ/
e (hir)	hen	/e/
ê	gêm	/e/
i (byr)	pin	/ɪ/
ì	sgil	/ɪ/
i (hir)	ffin	/i/
î	sgrîn	/i/
o (byr)	toc	/ɔ/
ò	clòs	/ɔ/
o (hir)	clos	/o/
ô	môr	/o/
*u (byr)	tun	/ɪ/
*u (hir)	grug	/i/
*û	cytûn	/i/
w (byr)	dwrn	/ʊ/
w (hir)	sw	/u/
ŵ	dŵr	/u/
*y (byr)	llyn	/ɪ/
*y (hir)	dyn	/i/
*ÿ	ÿd	/i/
**y	cynnig	/ə/

\* Yng Ngogledd Cymru, mae'r llafariad hyn yn cael eu cynhyrchu trwy godi canol y tafod i gyfeiriad y daflod.

\*\* Mae 'y' yn swnio fel hyn pan fo'n digwydd yn y goben.

## Y deuseiniaid

Mae deusain yn gyfuniad o ddwy lafariad, ond dim ond un ohonynt sy'n dwyn yr acen bwys. Gelwir deusain lle daw'r llafariad a bwysleisir gyntaf yn ddeusain ddisgynedig. Gelwir deusain lle daw'r llafariad a bwysleisir yn ail, yn ddeusain ddyrchafedig.

### (i) Y deuseiniaid disgynedig:

**ai, ae, au, áu, âu:** /ai/

*casáu, dau, dramâu, sain, traed*

**ei, eu, ey:** /ei/

*lleuad, seiniau, teyrnas*

**ew:** /ɛu/

*rhew, tew*

**iw, yw:** /ɪu/

*cyw, rhiw*

**oi, oe, ou:** /ɔi/

*cyffrous, lloi, troed*

**wy, wŷ:** /ɔi/

(a) Geiriau unsill nad ydynt yn cymryd yr acen grom:

*bwyd, dwy, dwys, hwy, llwy, llwyr, mwy, rhwyd, rhwyf, swydd, swyn, twym, wy, wyt, wyth*

(b) Geiriau unsill lle mae angen acen grom (i ddangos y gwahaniaeth rhyngddynt a geiriau eraill):

*gŵyl, wŷn, gŵyr, wŷr, (dy) gŵyn, (ei) chwŷn, (y) gŵys, (a) chwŷs, gŵydd*

(c) Geiriau lluosill lle na cheir acen grom:

*annwyd, arwydd, cadwyn, kannwyll, cwyno, egwyddor, galwyn, llwyddo, nodwydd, wyllo*

**(ii) Y deuseiniaid dyrchafedig:**

***Yn dechrau ag ‘i’:*** /j/

*cofio, gweithiwr, iâ, iâr, iach, tanio, peintiwr*

***Yn dechrau â ‘w’:*** /w/

(a) Geiriau unsill heb acen grom:

**y fer:** *chwyn, gwyn, gwynt, gwyrth*

**y hir:** *chwys*

(b) Geiriau unsill ag acen grom uwchben ‘y’:

*gwŷr, gwŷs*

(c) Yn sillaf olaf geiriau, heb acen grom:

*arwyr, enwyn, palmwydd, pinwydd, tywydd*

(ch) Gydag ‘y ganolog’ mewn unrhyw sillaf ond yr un olaf:

*chwynnu, gwyntoedd, gwyrddion, gwynnaf, tywyllwch*

**Cytseiniaid**

Sain yw cytsain sy'n cael ei chynhyrchu drwy rwystro llyf y llafar, e.e. ‘p’, ‘b’, ‘ch’, ‘ll’, ‘r’.

Ar y cyfan, mae cytseiniaid Cymraeg yn swnio fel y rhai Saesneg cyfatebol. Ond cofiwch y pwyntiau canlynol:

<b>c</b>	<b>ci, cap</b>	- bob amser yn 'galed'	/k/
<b>ch</b>	<b>bach, chwaer</b>	- fel yr 'ch' yn 'loch' Gaeleg yr Alban	/χ/
<b>dd</b>	<b>gradd, ddoe</b>	- fel yr 'th' yn 'that' Saesneg	/ð/
<b>f</b>	<b>haf, felly</b>	- fel yr 'f' yn 'of' Saesneg	/v/
<b>ff</b>	<b>rhaff, ffair</b>	- fel yr 'ff' yn 'off' Saesneg	/f/
<b>ll</b>	<b>lle, allan</b>	- 'l' ddi-lais	/ɫ/
<b>ph</b>	<b>ei phen</b>	- dim ond gyda'r treigladau llaes	/f/
<b>rh</b>	<b>rhaf, rhwyf</b>	- 'r' ddi-lais	/r̥/

### Llythrennau Dwbl

Ar wahân i'r cytseiniaid a ddynodir gan ddwy arwydd:

*ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th*

dim ond dwy lythyren sy'n cael eu dyblu yn y Gymraeg, sef 'n' ac 'r', a hynny yn bennaf pan fyddant yn digwydd rhwng y goben a'r sillaf olaf mewn gair lluosill.

**Eithriadau:** *synn, tynn, ynn*

Yn ogystal, rhaid i'r llafariad sy'n rhagflaenu fod yn fyr:

*ennill, gyrrru, diflannu, torri, dibennu, synnu*

**Eithriadau:** *crynu, glynu, penderfynu, prynu*

Ond pan fydd yr acen yn symud o ganlyniad i ychwanegu sillaf fel terfyniad berfol, er enghraifft, collir un o'r llythrennau dwbl:

$\begin{matrix} \nearrow \\ \text{ennill (en n i l l) + -ais} \end{matrix} = \text{enillais (enillais)}$   
 $\begin{matrix} \nearrow \\ \text{cyrraedd (cyr r a e d d) + -iadau} \end{matrix} = \text{cyraeddiadau (cyraeddiadau)}$

### h-acennog

Pan fydd 'n' neu 'r' yn rhagflaenu'r sillaf acennog, yn enwedig y terfyniad berfenwol '-au' ceir 'h' ar ei hôl. Gan fod yr 'h' hon yn dynodi'r acen bwys, mae'n cael ei galw'n h-acennog:

*crynhoi, cyrhaeddais, edifarhau, glanhau, mwynhau, parhau, sicrhau, tynhau, sarhau*

Ond ar ôl cytsain ddi-lais, fel 't' ac 's', nid ysgrifennir 'h', ac mae'r acen bwys yn cael ei dynodi gan **acen ddyrchafedig**:

*casáu, dwysáu, gwacáu, nesáu, tristáu*

## **Ymarferion**

### **Yr Acen Grom Mewn Geiriau Unsill**

#### **1 Llafariaid Syml**

*Cyfieithwch y geiriau canlynol:*

1. fire .....
2. father .....
3. house .....
4. roof .....
5. tape .....
6. summer .....
7. role .....
8. red .....
9. train .....
10. seat .....
11. clean .....
12. country .....
13. night .....
14. tame .....
15. small .....
16. payment .....
17. lane .....
18. puzzle .....
19. smile .....
20. old .....

## 2 Y ddeusain ‘wy’

*Cyfieithwch:*

1. he knows (*ffurf gryno*) .....
2. complaint .....
3. post (= *job*) .....
4. they / them .....
5. summons .....
6. net .....
7. intensive .....
8. eight .....
9. a tear (= *twll*) .....
10. more .....

## 3 h-acennog

*Cyfieithwch:*

1. to continue .....
2. to clean .....
3. to empty .....
4. to intensify .....
5. to enjoy .....
6. to tighten .....
7. insult .....
8. to sadden .....
9. to hate .....
10. to collect (*Ceredigion*) .....

## 4 Dyblu Cytseiniaid

*Cyfieithwch:*

1. to drive .....
2. we drove .....

3. to win .....
4. The prize was won. ....
5. to disappear .....
6. They dissappeared. ....
7. to buy .....
8. to write .....
9. I wrote .....
10. The report was written .....
11. to break .....
12. We broke the machine .....
13. to arrive .....
14. I arrived .....
15. The parcel arrived. ....

### **Adran Cyfuno Sgiliau**

Cyfieithwch y llythyr o werthfawrogiad canlynol:

9 April, 2013

Mr David Jones  
 Managing Director, ACME Ltd.  
 23 Bay View  
 Cardiff

Dear David,

I would like to take this opportunity to express my gratitude to you for your contribution to our recent conference in Cardiff Bay on the 'future of Manufacturing.'. The Vice-chancellor has also asked me to pass on his appreciation for your efforts in supporting The University of Mid Wales in this important undertaking.

Your skill in chairing the controversial panel on 'The Role of Developing Countries in the Future of Manufacturing' was very much appreciated by those representing all sides of that extremely sensitive topic. We have received numerous requests for the paper you delivered on 'Cooperation Between Multinationals and Governments'.

I appreciated the time that the two of us were able to spend together during the conference. I learned a lot about the unique aspects of global economics.

We are now producing a 'summary of conference papers', and we expect to be sending it out to all delegates early in the new year.



Again, thanks for your enthusiastic contribution to our conference. I have no doubt that it would not have been the success that it was without your presence.

Please keep in touch, and drop in and visit us whenever you are in this part of the world.

Yours sincerely,

Michael Nesmith  
Director of Business Studies  
University of Mid Wales

## **Pwnc Trafod**

Dylwn wella fy sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg.

## **Nodyn i'r tiwtor**

**Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bedwar. Pob grŵp i feddwl am bum dadl o blaid y gosodiad a phum dadl yn ei erbyn. Cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Cynnal trafodaeth i flaenoriaethau'r dadleuon o blaid ac yn erbyn.**

## **Gwaith Cartref**

Lluniwch lythyr o ddiolch yn seiliedig ar y patrwm yn yr Adran Cyfuno Sgiliau.



Gwnewch bopeth yn Gymraeg!